

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026)

ARCHWILIAD CYHOEDDUS:

Sesiwn gwrandawriad 13 Sipsiwn a Theithwyr



Pwynt Gweithredu S13/PG2

Safle Penhesgyn

- (i) Paratoi papur i roi diweddariad ynglŷn â'r broses tendro am waith gan gwmni ymgynghoriaeth.
- (ii) Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i ddangos ffiniau cywir y safle a'r tir ar gyfer mynediad

Ymateb y Cynghorau

- (i) Penodi cwmni ymgynghoriaeth

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi penodi ymgynghorwyr gyda phrofiad a chymwysterau addas i gefnogi'r Cyngor i gynllunio a chyflwyno un safle preswyl parhaol ym Mhenhesgyn ac un man aros dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar Ynys Môn. Bydd y cyntaf yn cael eu cynnwys ar Fap Cynigion y Cynllun.

Bydd Gwasanaethau Tai y Cyngor yn cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Gwaith y Cyngor ym mis Rhagfyr 2016, a fydd yn darparu diweddariad o'r cynnydd. Cafodd cerrig milltir allweddol y prosiect ei adnabod a bydd y prosiect ei rannu'n bum prif gam, sef:

- Cam 1: Sefydlu'r prosiect – Opsiynau Dylunio Safle Cychwynnol a Chostau.
- Cam 2: Cais cynllunio a'r ymgynghoriad cyn ymgeisio.
- Cam 3: Dylunio Manwl a Manyleb.
- Cam 4: Dogfennau Tendro a Chaffael Contractwr.
- Cam 5: Y Contract Adeiladu.

Rhagwelir caiff cais cynllunio ei chyflwyno yn ystod mis Ionawr / Chwefror 2017, er mwyn manteisio ar y cyllid grant sydd ar gael ar gyfer darpariaeth o leiniau preswyl parhaol. Bydd Fframwaith Fonitro'r Cynllun yn cofnodi'r targed polisi i ddarparu plotiau 4 gofynnol erbyn diwedd 2017 / 2018.

- (ii) Ffiniau safle Penhesgyn

Roedd Tudalen 23 Papur Testun 18B Sipsiwn a Theithwyr diweddariad – adendwm i Bapur Testun 18A (DA.022) yn cynnwys map sy'n nodi lleoliad y tir oedd yn cael ei ystyried i

ddatblygu safle preswyl parhaol i ddiwallu anghenion Teithwyr Newydd sy'n deillio o safle diawdurdod a oddefir yn ffordd Pentraeth. Mae angen cyfateb i bedwar o leiniau. Mae'r gwaith a wnaed hyd yn hyn yn cadarnhau y bydd y lleiniau sy'n ofynnol yn cael eu lleoli ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor i ddwyrain Penhesgyn ac y gellir darparu mynediad addas ar dir sydd yn union i'r de o Penhesgyn. Mae'r cynllun yn Atodiad 1 i'r papur hwn yn dangos ffiniau safle a gaiff eu hasesu gan ymgynghorwyr y cyfeirir ato yn (i) uchod yn ystod y cam dewisiadau dylunio safle a chostio'r prosiect. Felly, mae'r Cynghorau yn cynnig Newid Materion sy'n codi i Fap Cynigion i ddangos y ffiniau ar gyfer safle arfaethedig Penhesgyn ar gyfer Teithwyr fel a nodir yn Atodiad 1. Mae ymateb y Cynghorau i Bwynt Gweithredu S13/PG6 yn darparu Newid Materion sy'n Codi i Bolisi TAI 12 i gynnwys cyfeiriad i'r safle arfaethedig ym Mhenhesgyn.

